Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mr Jonathan House
Cyngor Sir Caerdydd
Neuadd y Sir
Glanfa Iwerydd
Caerdydd
CF10 4UW

Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL
08442 640670
gofyn@olderpeoplewales.com

12 Gorffennaf 2011

Annwyl Mr House,

Hoffwn ddiolch i chi am ymateb yn brydlon i'm Hadolygiad 'Gofal gydag Urddas? Profiadau pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru'. Rwy'n gwerthfawrogi'r amser a'r ymdrech sydd wedi'u neilltuo i lunio ymateb i Argymhelliad 5 yn Adroddiad yr Adolygiad. Rwy'n croesawu'r ffaith bod Cyngor Sir Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg yn cydnabod y materion ac rwy'n croesawu hefyd y gwaith sydd wedi'i wneud i roi sylw i'r materion hyn. Calondid i mi oedd yr ymatebion addawol a gawsom ac rwy'n teimlo bod llawer ohonyn nhw'n dangos gwir awydd i wella profiad pobl hŷn yn yr ysbyty. Rwyf wedi amgáu copi o'm hymateb i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a hoffwn ofyn ichi ei ddarllen yn ofalus.

Mae'n ofynnol imi gadw cofrestr, sydd ar gael i'r cyhoedd, yn cynnwys manylion yr argymhellion a chanlyniad unrhyw gamau pellach yr ydw i wedi'u cymryd. Bydd y gofrestr ar ein gwefan a bydd ar gael ar bapur hefyd os gwneir cais amdano.

Pan fyddaf yn fodlon bod gen i'r cyfan o'r wybodaeth angenrheidiol, bydd fy nhîm a mi'n gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod Argymhelliad 5 yn dod yn realiti ymarferol sydd o les i bobl hŷn yng Nghymru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y rhan hon o'r broses, mae croeso ichi gysylltu ag Anna Buchanan ar 02920 445034 neu anna.buchanan@olderpeoplewales.com.

Yn gywir,



Ruth Marks
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru